# Adroddiad ar Helpu Pobl Ifanc i gael Gwaith

**Mawrth 2015**

Rydym yn gwybod bod gormod o bobl ifanc yn ddi-waith ar hyn o bryd, a bod y rhai o dan 24 oed yn fwy tebygol o fod yn ddi-waith nag unrhyw grŵp oedran arall, ac rydym yn ceisio deall pam.

Yn 2014 penderfynodd Pwyllgor Menter a Busnes Cynulliad Cenedlaethol Cymru ystyried pam mae mor anodd i bobl ifanc gael gwaith neu hyfforddiant.

## Beth oedd gennych chi i'w ddweud wrthym?

Dywedodd y bobl ifanc a fu'n siarad â ni mai'r problemau mwyaf roeddent yn ei wynebu oedd y ffaith nad oedd ganddynt ddigon o hyder, dim digon o gymwysterau a dim digon o hyfforddiant. Y broblem fawr arall roeddent yn ei hwynebu oedd cost trafnidiaeth a'r ffaith nad oedd trafnidiaeth ar gael. Roedd hyn yn ei gwneud yn anoddach iddynt gael hyd i waith p'un a oeddent yn byw mewn ardal wledig neu mewn tref fawr.

## Beth oedd gan gyflogwyr i'w ddweud wrthym?

Y broblem fwyaf i gyflogwyr oedd y ffaith nad oedd pobl ifanc yn barod i ymuno â'r gweithle. Roedd angen i bobl ifanc, medden nhw, ddod i'r gwaith yn brydlon, dangos ei bod yn bosibl dibynnu arnynt a thrin gweithwyr eraill â pharch.

## Ein syniadau ni

Ar ôl clywed beth oedd gennych chi i'w ddweud, rydym wedi meddwl am rai pethau y gall y rhai sy'n gyfrifol am baratoi pobl ifanc ar gyfer bywyd fel oedolion ei wneud. Dyma'r syniadau:

### Help i bobl ifanc

Mae pobl ifanc rhwng 16 ac 17 oed yn gallu teithio'n rhatach o dan y Cynllun Tocynnau Teithio Rhatach i Bobl Ifanc, a dylai hyn fod ar gael i bobl ifanc rhwng 18 a 24 oed hefyd.

Dylai Gyrfa Cymru roi cyngor wyneb yn wyneb i bob person ifanc sy'n gofyn amdano.


Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda'r rheini sy'n rhoi budd-daliadau i atal pobl ifanc rhag colli eu budd-dal tai os byddant yn dechrau gweithio mewn swydd ar gyflog isel.

Mae'n bosibl bod angen mwy o help ar rai pobl ifanc i ddechrau gweithio a chadw eu swydd. Mae angen cyrsiau hyblyg i helpu'r bobl ifanc yma i aros yn eu gwaith.

Mae elusennau'n cael arian mewn gwahanol ffyrdd i helpu pobl ifanc i gael gwaith ac i ddysgu sgiliau newydd. Dylent wario'r arian yma'n gall a'i roi i'r rhai y mae angen help arnynt fwyaf.

Mae angen gweithwyr arweiniol i helpu pobl ifanc i gael hyd i waith.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales



**Addysg**
Dylai ysgolion ddysgu sgiliau ym mhob pwnc i baratoi pobl ifanc ar gyfer byd gwaith, yn hytrach na dysgu'r sgiliau dim ond fel rhan o'r 'Fframwaith Gyrfaoedd a Byd Gwaith'.

Mae angen gwella'r cysylltiad rhwng cyflogwyr ac ysgolion.

Dylai Llywodraeth Cymru edrych ar y cydbwysedd rhwng astudio yn yr ystafell ddosbarth a dysgu seiliedig ar waith i weld a yw'n cyd-fynd â'r cyfleoedd gwaith sydd ar gael.

Dylai Llywodraeth Cymru edrych ar y ffordd y mae dysgwyr yn gwneud cais am gyrsiau gan ofalu eu bod yn gallu dewis dilyn cyrsiau galwedigaethol ac ymarferol, nid dim ond cyrsiau academaidd, yn yr ysgol yn ogystal â cholegau addysg bellach.

Dylai Llywodraeth Cymru edrych ar y cyfleoedd sydd gan bobl ifanc i ddewis cyrsiau galwedigaethol ar ôl iddi newid y gyfraith yn 2009, drwy'r Mesur Dysgu a Sgiliau.

**Profiad gwaith**
Dylai profiad gwaith i ddysgwyr fod yn hirach a  dylid gwneud yn siŵr bod y lleoliadau'n cael eu trefnu'n iawn.

Dylai Gyrfa Cymru fod yn gyfrifol am wneud yn siŵr bod lleoliadau profiad gwaith yn bodloni Safonau Iechyd a Diogelwch a chadw rhestr ganolog o leoliadau.

**Cyfleoedd i weithio fel prentis neu dan hyfforddiant**
Mae angen gwneud mwy i greu mwy o brentisiaethau.

Drwy greu cyfleoedd i bobl ifanc weithio dan hyfforddiant, mae'n bosibl rhoi'r sgiliau a'r cymwysterau sydd eu hangen arnynt i gael swydd neu i symud ymlaen i addysg uwch. Nid pawb sy'n barod i weithio fel hyfforddai pan fyddant yn 16 oed, felly mae angen gwneud mwy i'w helpu i gael gwaith dan hyfforddiant.

Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried pa mor ddefnyddiol a llwyddiannus yw profiad gwaith i bobl ifanc. Dylent hefyd edrych ar y cyngor y mae Gyrfa Cymru yn ei roi i bobl ifanc a dylent hefyd weithio'n agosach gyda chyflogwyr i wneud yn siŵr bod pobl ifanc yn gwybod am y cyfleoedd gwaith sydd ar gael iddynt. Rydym yn meddwl y bydd hyn yn ddefnyddiol ac rydym yn edrych ymlaen at weld y canlyniadau.

## Beth fydd yn digwydd nesaf?

Cadwch lygad ar y datblygiadau drwy wylio ein ffrwd Twitter a'n gwefan. Bydd ein syniadau'n cael eu trafod yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru ac rydym yn disgwyl i Lywodraeth Cymru ddweud beth y maent am ei wneud ynglŷn â'n syniadau. Byddwn yn rhoi gwybod i chi beth yw eu hatebion a chewch chithau ddweud eich barn drwy drydar yn ôl.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

